Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

ATODIAD GA36b

MANYLEB ASESU LEFEL 5

Enw'r myfyriwr:		**Rhif Adnabod y myfyriwr:**	
Rhaglen:	BA Addysg Gynradd gyda SAC		
Modwl:	Cylch 2: Dysgwyr, ysgolion a chymunedau: Ble ydw i'n addysgu?		
Cod y modwl:	ECAD5009C	**Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):**	100%
Darlithydd:	Rachel Bendall	**Gwiriwr Mewnol:**	
Teitl yr Aseiniad:	Ymateb ysgrifenedig - Cynnig ar gyfer prosiect cymunedol ysgol	**Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth):**	2750
Dyddiad cyflwyno:	06/05/25 (23.59)	**Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:**	28/05/25 (16:00)
Dull cyflwyno:	Lle bo'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig drwy Turnitin, oni nodir yn wahanol gan y Darlithydd. (PEIDIWCH â rhoi'r fanyleb asesu hon i mewn i Turnitin neu bydd yn cyfateb i lawer o bethau tebyg yng nghyflwyniadau myfyrwyr eraill.) **Dull cyflwyno arall (os ydy'n berthnasol):** **Bydd cyflwyno'r asesiad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc cosb.** Cosbau am gyflwyno'n hwyr: Hyd at wythnos yn hwyr, uchafswm marc o 40%. Dros wythnos yn hwyr, 0%. Y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn unig all gymeradwyo newid dyddiadau cyflwyno.		
Gonestrwydd academaidd / cyfeirnodi:	Mae gonestrwydd academaidd yn ofynnol. Ym mhrif ran eich cyflwyniad rhaid i chi gydnabod awduron y mae'ch gwaith wedi'i seilio ar eu hymchwil a'u syniadau. Dylech atodi rhestr gyfeiriadau i'ch cyflwyniad sy'n nodi'r llyfrau, erthyglau ac ati rydych wedi'u defnyddio, wedi cyfeirio atynt neu wedi'u dyfynnu er mwyn cwblhau'r asesiad hwn.		

Deilliannau Dysgu'r Modwl (o faes llafur y modwl)
Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r darpar athrawon allu • gwerthuso sut mae ysgolion gwahanol yng Nghymru yn ymgysylltu â'u cymunedau ac yn diwallu eu hanghenion trwy ymchwilio i arfer da; • nodi a dadansoddi sut mae meysydd sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol yn dylanwadu ar faterion ysgol gyfan, er enghraifft cynwysoldeb, amrywiaeth a thegwch; • archwilio sut mae ffactorau diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd gymdeithasol amrywiol yn dylanwadu ar yr amgylchedd dysgu a sut y rheolir hyn yn effeithiol mewn ystafell ddosbarth.

DISGRIFIAD O'R DASG

Gan ddefnyddio'ch profiadau o addysgu dysgwyr 7-11 oed, ysgrifennwch gynnig ar gyfer prosiect cymunedol ysgol.

Yn eich cynnig, mae angen i chi wneud y canlynol:

- Nodwch ffocws ar gyfer eich prosiect yn seiliedig ar eich profiadau o addysgu dysgwyr 7-11 oed.
- Cyfiawnhewch pam rydych chi wedi dewis y ffocws hwn.
- Gwerthuswch y cynnig yn feirniadol a'i effaith a'i ganlyniadau arfaethedig trwy wneud cysylltiadau â llenyddiaeth academaidd a phroffesiynol.
- Gwnewch ddadansoddiad SWOT o'ch cynnig (i'w gynnwys fel atodiad).

<u>Strwythur a awgrymir:</u>

Cyflwyniad (tua 250 gair):
- Cyflwynwch deitl eich cynnig prosiect a pha agwedd o ddysgu'r dysgwyr bydd yn elwa o'ch cynnig prosiect.
- Cyflwynwch yr agwedd ar waith ysgol-gymuned rydych wedi'i dewis ar gyfer eich cynnig prosiect ac esboniad cryno o'r rhesymau pam rydych wedi dewis yr agwedd hon.
- Cofiwch wneud cysylltiadau at lenyddiaeth o'r paragraff cyntaf hwn.

Adolygiad o lenyddiaeth (tua 800 o eiriau):
- Rhowch gyfiawnhad llawn pam eich bod wedi dewis y ffocws hwn.
- Bydd eich cyfiawnhad yn seiliedig yn llawn ar gyfeiriadau at lenyddiaeth – academaidd a phroffesiynol – ac anghenion yr ysgol a'i chymuned.

Nodau'r prosiect (tua 500 gair):
- Dyma le byddwch yn amlinellu nodau, canlyniadau ac effaith arfaethedig eich prosiect.
- Byddwch hefyd yn esbonio sut y caiff eich prosiect ei weithredu, gan gynnwys ystyriaeth fyr o'r staffio a'r gyllideb.
- Drwy'r amser, byddwch yn cyfeirio at lenyddiaeth i gyfiawnhau eich dewisiadau a'ch dulliau gweithredu a'u gwerthuso'n feirniadol.

Mesur effaith (tua 500 gair):

- Dyma le byddwch yn esbonio sut y byddwch yn mesur yr effaith y bydd eich prosiect yn ei chael.
- Byddwch yn seilio eich esboniad ar enghreifftiau o werthusiadau yn yr ysgol, astudiaethau achos arfer dda, a dulliau gwerthuso yr ydych yn gyfarwydd â hwy o'ch arfer eich hun.
- Byddwch yn parhau i gyfeirio at lenyddiaeth sy'n cefnogi a/neu'n cwestiynu eich dull.

Gwerthusiad (tua 500 gair):
- Dyma le byddwch yn rhoi ystyriaeth lawn i gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau'r prosiect.
- Gelwir hyn yn ddadansoddiad SWOT.
- Dechreuwch gyda chrynodeb ar y templed 'dadansoddiad SWOT' a ddarperir ar Moodle a'i gynnwys fel atodiad ar ddiwedd eich gwaith (*nid yw'r atodiad wedi'i gynnwys yn y cyfrif geiriau*)
- Ymhelaethwch ar rai o'r pwyntiau hyn ym mhrif gorff eich aseiniad, tra'n sicrhau eich bod yn defnyddio llenyddiaeth i gefnogi neu gwestiynu eich dadleuon.

Casgliad (tua 200 gair):
- Crynhowch rai o'r negeseuon allweddol y mae eich aseiniad wedi'u cyflwyno ynghylch gweithio ysgol-cymunedol, a sut mae hyn wedi effeithio ar eich ymarfer eich hun.
- Efallai yr hoffech gyfeirio at Safon Broffesiynol (SAC) berthnasol i ddangos eich dysgu a'r camau nesaf fel darpar athro.
- Cofiwch barhau i gyfeirio at lenyddiaeth drwy'r amser.

Atodiadau (dim cyfrif geiriau)
- Dylech gynnwys y canlynol yn yr atodiad: Dadansoddiad SWOT o'ch prosiect arfaethedig.

Gwybodaeth arall (dim cyfrif geiriau):
RHAID i chi gynnwys y canlynol ar ddechrau eich gwaith:
- Targedau blaenorol a sut rydych chi wedi mynd i'r afael â nhw yn yr aseiniad hwn, gan gynnwys enghreifftiau penodol o ble mae hyn i'w weld yn eich gwaith.
- Datganiad o ddefnydd AI – i'w gynnwys p'un a ydych wedi defnyddio AI ai peidio.

Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol mewn Asesiadau
(Y darlithydd i ddynodi Gallwch/Na allwch neu Gywir/Anghywir yn erbyn pob elfen)

YMCHWIL	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i'ch cefnogi wrth ymchwilio, yn cynnwys chwilio am lyfryddiaeth, defnyddio offer i grynhoi, cymharu deunyddiau a'u dadansoddi.	Gallwch ☒ Na allwch ☐
STRWYTHUR	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i'ch cefnogi wrth strwythuro eich gwaith, yn cynnwys llunio strwythur dadl drafft, dynodi adrannau a phenawdau ac ati.	Gallwch ☒ Na allwch ☐
PRAWF DDARLLEN	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i wirio eich testun/creadigaeth eich hun am wallau gramadegol a chystrawennol, yn cynnwys aralleirio eich gwaith eich hun o fewn safonau penodol.	Gallwch ☒ Na allwch ☐
YSGRIFENNU	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu testun i'w gyflwyno.	Gallwch ☐

		Na allwch ☒
CREADIGOL	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu deunyddiau creadigol, megis delweddau.	Gallwch ☐ Na allwch ☒
RHAGLENNU	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu a gwirio cod.	Gallwch ☐ Na allwch ☒
DIM	Ar gyfer yr asesiad hwn, ni chaniateir i chi ddefnyddio **unrhyw** fath o gymorth drwy Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Mae hyn yn cynnwys cymorth ymchwil, cymorth strwythur, cymorth ysgrifennu / prawf ddarllen a chymorth creadigol.	Cywir ☐ Anghywir ☒

***Cyngor ar ddefnyddio ChatGPT a systemau cynhyrchu AI**

Wrth i chi weithio ar eich aseiniadau, efallai y byddwch yn ystyried defnyddio systemau Deallusrwydd Artiffisial (AI) ar gyfer ymchwil gefndirol. Mae'n dderbyniol defnyddio'r offer hyn fel adnodd, ond mae'n bwysig bod yn ymwybodol eu bod yn aml yn gwneud camgymeriadau ac efallai na fyddant yn hollol gywir, yn enwedig pan ofynnir am gyfeiriadau academaidd. Rhaid i chi gofio fel myfyriwr eich bod yn gyfrifol yn y pen draw am bopeth rydych yn ei gyflwyno, a gall dibynnu'n gyfangwbl ar AI arwain at gael gradd is nag yr ydych yn gallu ei chyflawni, neu hefyd gall arwain at ymchwiliad am gamymddwyn academaidd. Mae copïo a gludo testun yn uniongyrchol o'r offer hyn heb gyfeiriad neu ddyfyniad priodol nid yn unig yn anfoesol ond hefyd gall arwain at ganlyniadau difrifol megis methu'r aseiniad neu hyd yn oed cael eich diarddel o'r brifysgol. Felly, mae'n hanfodol defnyddio AI fel man cychwyn ac yna gwirio ac ystyried unrhyw wybodaeth sydd ar gael.

CANLLAWIAU I FYFYRWYR WRTH GWBLHAU TASGAU

SYLWER: Mae'r canllawiau a nodir isod yn gysylltiedig â'r pum maen prawf asesu generig drosodd.

1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth

Mae'n rhaid i'ch gwaith gael ei lywio a'i gefnogi gan ddeunydd ysgolheigaidd sy'n *berthnasol* i'r dasg/tasgau a osodwyd ac sy'n *canolbwyntio* arni/arnynt. Dylech ddarparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi cael mynediad at *ystod* briodol o ffynonellau, a allai fod yn academaidd, yn llywodraethol a diwydiannol; gall y ffynonellau hyn gynnwys erthyglau cyfnodolion academaidd, gwerslyfrau, erthyglau newyddion cyfredol, dogfennau sefydliadol a gwefannau. Dylech ystyried *hygrededd* eich ffynonellau; fel arfer mae cyfnodolion academaidd yn ffynonellau credadwy iawn, ond mae'n rhaid ystyried/dethol gwefannau'n ofalus iawn a dylid eu defnyddio'n gynnil. Dylai unrhyw ffynhonnell a ddefnyddiwch fod yn gyfredol, a'r rhan fwyaf wedi'u cyhoeddi o fewn y pum mlynedd diwethaf, er y gall darnau arloesol/pwysig o waith yn y maes fod yn hŷn. Rhaid i chi ddarparu *tystiolaeth* o'ch ymchwil/gwaith darllen eich hun trwy gydol eich gwaith, gan ddefnyddio system gyfeirnodi addas, yn cynnwys cyfeiriadau yn y testun ym mhrif ran eich gwaith a rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich gwaith.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Defnyddiwch nodiadau a deunydd darllen o sesiynau, deunydd ychwanegol wedi'i uwchlwytho ar Moodle a llyfrau o restr ddarllen y modiwl sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng dysgwyr, ysgolion a chymunedau. Dangoswch dystiolaeth hefyd o ddarllen cyfredol ac amrwyiol ehangach a ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol, gan gynnwys llyfrau academaidd, cyfnodolion a dogfennau proffesiynol. Cyfeirnodwch pob ffynhonnell gwybodaeth gan ddilyn confensiynau'r dull Harvard a chynnwys rhestr gyfeirnodi ar ddiwedd yr aseiniad - defnyddiwch Lawlyfr Canllawiau Cyfeirnodi'r Brifysgol ar gyfer hyn.

2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Ar lefel 5, dylech allu dangos: gwybodaeth gadarn a dealltwriaeth feirniadol o gysyniadau ac egwyddorion sefydledig y maes pwnc a'r ffordd y mae'r egwyddorion hynny wedi datblygu; gwybodaeth am y prif ddulliau ymholi yn y ddisgyblaeth. Mae *gwybodaeth* yn ymwneud â'r ffeithiau, y wybodaeth a'r sgiliau rydych wedi'u caffael trwy eich dysgu. Rydych yn arddangos eich *dealltwriaeth* trwy ddehongli ystyr y ffeithiau a'r wybodaeth. Golyga hyn fod arnoch angen dethol a chynnwys yn eich gwaith y cysyniadau, y technegau, y

modelau, a'r theorïau ac ati sy'n briodol i'r dasg/tasgau a osodwyd. Dylech allu esbonio'r damcaniaethau, cysyniadau ayyb, yn ystyrlon i ddangos eich dealltwriaeth. Hefyd bydd eich marc/gradd yn amodol ar y *graddau* rydych yn arddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:
Dylech ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn a chynhwysfawr o'r damcaniaethau sy'n sail i'r perthnasoedd rhwng dysgwyr, ysgolion a chymunedau, a rhai o'r cymhlethdodau sy'n codi ynddynt e.e. ffactorau diwylliannol, hîl/ethnigrwydd, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol amrywiol. Fe ddylech chi hefyd allu egluro sut mae elfennau o bolisïau perthnasol yng Nghymru e.e. y rhai sy'n ymwneud â diwygio'r cwricwlwm, cyhwysiant, amrywiaeth a thegwch, yn effeithio ar y perthnasoedd rhwng dysgwyr, ysgolion a chymunedau.

3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol
Dylech allu dadansoddi gwybodaeth yn feirniadol, a chynnig atebion i broblemau sy'n deillio o'r dadansoddi hwnnw, yn cynnwys gwerthuso'n feirniadol addasrwydd gwahanol ddulliau o ddatrys problemau. Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o feddwl rhesymegol, dadansoddol, gwerthuso a synthesis. Er enghraifft, archwilio a thorri gwybodaeth i lawr yn elfennau, gwneud casgliadau, casglu, cymharu a chyferbynnu gwybodaeth. Ystyr hyn yw nid disgrifio 'beth' yn unig! Ond hefyd cyfiawnhau: Pam? Sut? Pryd? Pwy? Ble? Ar ba gost? Rhaid i chi bob amser ddarparu cyfiawnhad/tystiolaeth ar gyfer eich dadleuon a'ch barn. Mae darparu tystiolaeth eich bod wedi adfyfyrio ar syniadau pobl eraill yn y maes pwnc yn hanfodol os ydych am gyflwyno dadl resymegol a gwybodus o fewn eich gwaith. Yn ogystal, dylech ddarparu tystiolaeth o'ch gallu i ffurfio barn gadarn a dadleuon argyhoeddiadol trwy ddefnyddio data a chysyniadau, ynghyd â dealltwriaeth o'r cyfyngiadau ar wybodaeth, a'r modd y mae hyn yn dylanwadu ar ddadansoddiadau a dehongliadau. Mae casgliadau cadarn, dilys yn hanfodol ac mae'n rhaid iddynt ddeillio o gynnwys eich gwaith. Lle bo'n berthnasol, gellir cynnig atebion ac argymhellion amgen.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:
Esboniwch pam y dewiswyd y ffocws penodol hwn ar gyfer yr ysgol a'i chymuned, gan dalu sylw penodol i'w cyd-destun ethnig, diwylliannol, crefyddol, ieithyddol a chymdeithasol-economaidd. Sut y gellid ei gweithredu, gan bwy, a sut y byddech chi'n gwybod a yw'n briodol ac yn effeithiol? Dylech gyfiawnhau'ch dewis o ffocws a gwerthuso ei gryfderau a'i wendidau yn feirniadol. Dadansoddwch ei effaith bosibl yn feirniadol ar sail egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol a'r hyn y gwyddoch am gyfleoedd a rhwystrau sy'n gysylltiedig gydag ymgysylltiad ysgol – cymuned. Dylai hyn wedi seilio ar dystiolaeth o ymchwil a thrwy fyfyrio ar brofiadau personol. Crynhowch eich dadansoddiad mewn dadansoddiad SWOT (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau) y dylid ei gynnwys fel atodiad ar ddiwedd eich aseiniad.

4. Sgiliau Ymarferol
Ar lefel 5, dylech allu defnyddio ystod o dechnegau sefydledig o fewn y ddisgyblaeth, a chymhwyso cysyniadau ac egwyddorion gwaelodol y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf, gan gynnwys, pan fo'n briodol, cymhwyso'r egwyddorion hynny mewn cyd-destun cyflogaeth. Dylech allu dangos sut y mae'r cysyniadau a'r syniadau sy'n gysylltiedig â'r pwnc yn berthnasol i sefyllfaoedd yn y byd go iawn a/neu mewn cyd-destun penodol. Sut maent yn gweithio'n ymarferol? Byddwch yn defnyddio modelau, dulliau, technegau a/neu theorïau, yn y cyd-destun hwnnw, i asesu sefyllfaoedd presennol, efallai er mwyn llunio cynlluniau neu atebion i ddatrys problemau, neu i greu arteffactau, y gall rhai ohonynt fod yn greadigol. Mae hyn yn debygol o gynnwys, er enghraifft, defnyddio arteffactau, enghreifftiau ac achosion o'r byd go iawn, cymhwyso model o fewn sefydliad a/neu feincnodi un theori neu sefydliad yn erbyn rhai eraill yn seiliedig ar feini prawf penodedig. Dylech ddangos ymwybyddiaeth o gyfyngiadau cysyniadau a theorïau wrth eu cymhwyso mewn cyd-destunau penodol.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:
Dylech ddangos sut mae rhai o'r damcaniaethau a'r polisïau sy'n ymwneud â'r perthnasoedd rhwng dysgwyr, ysgolion a chymunedau a gyflwynwyd yn ystod y modiwl yn cysylltu â'ch cynnig a'r amrywiaeth sydd/nad sydd yn bodoli yn eich ysgol a'i chymuned. Tynnwch sylw at hyn wrth werthuso' a thrafod cryfderau a gwendidau'r ffocws o'ch dewis ac wrth ystyried yr heriau posibl a allai godi wrth ei weithredu. Gallwch hefyd gyfeirio at bolisïau ac enghreifftiau o arfer da mewn ysgolion, e.e. Pontio ac astudiaethau achos Estyn, lle bo hynny'n berthnasol.

5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol
Rhaid i'ch gwaith roi tystiolaeth o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys dangos: datblygiad

proffesiynol i wella sgiliau presennol a chaffael cymwyseddau newydd a fydd yn eich galluogi i ymgymryd â chyfrifoldeb sylweddol o fewn sefydliadau; eich bod yn gallu cychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, boed yn unigol a/neu'n gydweithredol; eich bod yn gallu defnyddio cyfryngau priodol i gyfleu gwybodaeth, dadleuon a dadansoddiad yn effeithiol ar amrywiaeth o ffurfiau i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol; rhuglder mynegiant; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn. Dylai'r gwaith fod yn gydlynol ac wedi'i strwythuro'n dda o ran ei gyflwyniad a'i drefn.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:
Ysgrifennwch mewn arddull broffesiynol ac academaidd ffurfiol a defnyddiwch gyfuniad o ffurf person cyntaf a thrydydd person y ferf yn eich ysgrifennu. Ceisiwch strwythuro'ch gwaith yn glir ac yn rhesymegol a'i gyflwyno mewn iaith gywir a safonol gan ddefnyddio offer gwirio sillafu a gramadeg i sicrhau cywirdeb. Gwnewch ddefnydd o iaith wrth-hiliol sydd heb ragfarn ac heb ystrydeb. Wrth gyfeirio at PAP, Pontio ac unrhyw brofiadau yn yr ysgol, cadwch at gonfensiynau moesegol a sicrhau anhysbysrwydd i bob ysgol ac unigolyn. Dangoswch eich ymdrech i wella sgiliau personol trwy ddefnyddio'r templed cyflwyno aseiniad (ar gael ar Moodle) gan nodi'ch targedau o'r aseiniad blaenorol.

FFURFLEN ADBORTH MYFYRWYR

Noda'r adran hon y *graddau* y mae'r meini prawf asesu yn cael eu harddangos gennych chi, sydd yn ei dro'n pennu'ch marc. Dangosir y marciau sydd ar gael ar gyfer pob categori sgiliau. Bydd darlithwyr yn defnyddio'r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/tasgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd a fyddai'n elwa o gael eu datblygu/gwella.

Meini Prawf Asesu Generig	**Marciau sydd ar gael**	**Marciau a ddyfarn wyd**
1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth		
2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth		
3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol		
4. Sgiliau Cymhwyso Ymarferol		
5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol		

Marc Asesiad (Mae marciau asesiadau'n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a'r marciau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.)	**Cosbau Cyflwyno'n Hwyr (ticiwch os yw'n berthnasol)**		**%**
	Hyd at wythnos yn hwyr (uchafswm o 40%)		
	Dros wythnos yn hwyr (0%)		

MEINI PRAWF ASESU GENERIG

Lefel 5
Yn unol â'r *Framework for Higher Education Qualifications*, ar ddiwedd Lefel 5 disgwylir y bydd myfyrwyr wedi datblygu gwybodaeth gadarn a dealltwriaeth feirniadol o'r cysyniadau a'r egwyddorion sefydledig yn eu maes astudiaeth, ac o'r modd y datblygwyd yr egwyddorion hynny. Byddant wedi dysgu cymhwyso'r cysyniadau a'r egwyddorion hynny'n fwy eang y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf, gan gynnwys, pan fo'n briodol, cymhwyso'r egwyddorion hynny mewn cyd-destun cyflogaeth. Bydd ganddynt wybodaeth am y prif ddulliau ymholi yn y maes pwnc, a gallu i werthuso'n feirniadol ddulliau gwahanol o ddatrys problemau. Byddant yn meddu ar ddealltwriaeth o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth, a'r modd y mae hyn yn dylanwadu ar eu dadansoddiadau a'u dehongliadau. Byddant yn gallu defnyddio ystod o dechnegau sefydledig i gychwyn ac ymgymryd â dadansoddiad beirniadol o wybodaeth, ac i gynnig atebion i broblemau sy'n deillio o'r dadansoddiad hwnnw. Byddant yn gallu cyfleu gwybodaeth, dadleuon a dadansoddiad yn effeithiol ar amrywiaeth o ffurfiau i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol, a defnyddio technegau allweddol y ddisgyblaeth yn effeithiol. Byddant yn gallu ymgymryd â hyfforddiant pellach, datblygu sgiliau cyfredol, ac ennill cymwyseddau newydd a fydd yn eu galluogi i dderbyn cyfrifoldebau sylweddol o fewn sefydliadau. Bydd ganddynt y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau.

Lefel 5	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3ydd / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth)
Categori	**0-29%**	**30-39%**	**40-49%**	**50-59%**	**60-69%**	**70-84%**	**85-100%**
Ymgysylltu â llenyddiaeth (yn cynnwys darllen, cyfeirnodi, arferion academaidd a gonestrwydd academaidd)	Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ddarllen a/neu mae dibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Safbwyntiau a chanfyddiadau ar y cyfan heb gefnogaeth ac yn anawdurdodol. Defnyddir arferion cyfeirnodi mewn modd anghydlynol neu ar y cyfan maent yn absennol.	Ymgysylltu gwael â darllen hanfodol. Dim tystiolaeth o ddarllen ehangach. Yn dibynnu ar ffynonellau amhriodol, a/neu yn defnyddio ffynonellau'n ddiofal. Yn ddibynnol iawn ar wybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth. Defnydd anghyson a gwan o gyfeirnodi.	Ymgysylltu ag ystod gyfyngedig o ffynonellau perthnasol a chredadwy ar y cyfan. Peth esgeulustod a mân wallau. Arferion cyfeirnodi'n amlwg ond heb eu cymhwyso'n gywir nac yn gyson bob tro.	Ymgysylltu ag ystod briodol o lenyddiaeth, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Rhywfaint o orddibyniaeth ar destunau. Gall y cyfeirnodi ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod eang o lenyddiaeth, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Detholiad o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Defnydd da iawn o gyfeirnodi, â fawr ddim/dim anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy. Cymhwyso cyfeirnodi'n gyson gywir.	Ymgysylltu eithriadol ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy. Sgiliau cyfeirnodi lefel uchel wedi'u cymhwyso'n gyson.

Lefel 5	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3ydd / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth)
Categori	**0-29%**	**30-39%**	**40-49%**	**50-59%**	**60-69%**	**70-84%**	**85-100%**
Gwybodaeth a dealltwriaeth (Gwybodaeth gadarn a dealltwriaeth feirniadol o'r cysyniadau a'r egwyddorion sefydledig yn eu maes astudiaeth; gwybodaeth am y prif ddulliau ymholi yn y ddisgyblaeth.)	Bylchau mawr yn y wybodaeth gyda dealltwriaeth anfoddhaol, anfeirniadol o'r deunydd pwnc. Llawer o ddeunydd amherthnasol. Anghywirdebau sylweddol. Dealltwriaeth ddiffygiol iawn o'r prif ddulliau ymholi yn y ddisgyblaeth.	Gwybodaeth ddarniog, gyda dealltwriaeth feirniadol arwynebol yn unig. Rhai anghywirdebau sylweddol a/neu ddeunydd amherthnasol. Dealltwriaeth anghyflawn neu rannol ddiffygiol o'r prif ddulliau ymholi yn y ddisgyblaeth.	Gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol gyfyngedig ond digonol o'r cysyniadau a'r egwyddorion sefydledig yn y maes pwnc, gydag ychydig o fylchau yn y dewis o ddeunydd. Dealltwriaeth feirniadol gyfyng o'r prif ddulliau ymholi.	Mae'r wybodaeth yn weddol fanwl a chywir. Dealltwriaeth feirniadol dda o'r cysyniadau a'r egwyddorion sefydledig a'r prif ddulliau ymholi, gyda mân fylchau yn y dewis o ddeunydd.	Mae'r wybodaeth yn weddol helaeth. Arddengys ddealltwriaeth feirniadol gymwys iawn o gysyniadau ac egwyddorion sefydledig y pwnc a'r prif ddulliau ymholi. Gwybodaeth eang a manwl.	Gwybodaeth fanwl, ragorol a dealltwriaeth feirniadol iawn o gysyniadau ac egwyddorion sefydledig y pwnc a'r prif ddulliau ymholi.	Gwybodaeth eithriadol o fanwl, a dealltwriaeth feirniadol ragorol o gysyniadau ac egwyddorion sefydledig y pwnc a'r prif ddulliau ymholi. Gall fynd y tu hwnt i theorïau sefydledig.
Sgiliau gwybyddol a deallusol (Gwerthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol; dadl a barn; y cyfyngiadau ar eu gwybodaeth, a'r modd y mae hyn yn dylanwadu ar eu dadansoddiadau a'u dehongliadau.)	Gwaith hollol neu bron yn hollol ddisgrifiadol. Fawr ddim neu ddim gwerthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol. Wedi methu datblygu dadleuon, gan arwain at farn afresymegol neu annilys. Cyffredinoliadau neu farn heb sail, wedi'u gwneud heb ddefnyddio unrhyw	Gwaith disgrifiadol ar y cyfan, gyda defnydd arwynebol o werthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol. Datblygu gwan ar ddadleuon a barn. Derbynnir gwybodaeth yn anfeirniadol, defnyddia ddatganiadau cyffredinol heb fawr o dystiolaeth a barn heb sail. Syniadau	Ymgais cyfyngedig at werthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, gan dueddu tuag at ddisgrifio. Peth tystiolaeth i gefnogi dadleuon a barn ond gall y rhain fod heb eu datblygu'n ddigonol, ag ychydig o anghysondeb / camddehongli neu wedi methu cydnabod yn llawn y	Rhywfaint o werthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, er ei fod yn ddisgrifiadol mewn mannau. Ymwybyddiaeth gynyddol o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth a'u gallu i ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi'r ddadl er gyda thuedd i daeru / datgan barn yn hytrach na dadlau ar sail	Gwerthuso a dadansoddi cysyniadau mewn modd beirniadol, cadarn. Yn ddethol o ran ystod y dystiolaeth a ddefnyddir ac yn cyfuno yn hytrach na disgrifio. Gallu i ddyfeisio dadleuon sy'n dangos ymwybyddiaeth o safbwyntiau gwahanol, ac i ddefnyddio tystiolaeth mewn modd argyhoeddiadol i	Gwerthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, rhagorol gan arwain at ddadleuon a barn rhesymegol a rhesymedig ar sail tystiolaeth. Cydnabyddiaeth eglur o safbwyntiau eraill ac ymwybyddiaeth gref o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth. Gallu i feddwl yn annibynnol ac i 'weld y tu hwnt	Gwerthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, eithriadol. Defnyddia dystiolaeth yn eithriadol o dda i gysylltu syniadau, a chefnogi dadleuon a barn rhesymegol ac argyhoeddiadol iawn. Tystiolaeth o feddwl yn annibynnol a gallu i 'weld y tu hwnt i'r cwestiwn', gan

Lefel 5	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3ydd / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth)
Categori	**0-29%**	**30-39%**	**40-49%**	**50-59%**	**60-69%**	**70-84%**	**85-100%**
	dystiolaeth gredadwy.	weithiau'n afresymegol ac yn gwrthddweud ei gilydd.	cyfyngiadau ar wybodaeth.	rheswm a thystiolaeth. Dadleuon dilys a barn resymegol ar y cyfan.	gefnogi barn briodol a dilys.	i'r cwestiwn', gan awgrymu rhywfaint o afael ar y maes a'r cysyniadau ehangach.	awgrymu gafael eglur ar y maes a'r cysyniadau ehangach. Cydnabyddiaeth dreiddgar o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth, a'r modd y mae hyn yn dylanwadu ar eu dadansoddiadau a'u dehongliadau.
Sgiliau ymarferol (Cymhwyso cysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sylfaenol yn fwy eang y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf; defnyddio ystod o dechnegau sefydledig; cynnig atebion i broblemau sy'n deillio o'r dadansoddiad.)	Defnydd cyfyngedig, neu ddim defnydd o ddulliau sefydledig, deunyddiau, offer a/neu dechnegau. Fawr ddim neu ddim gwerthfawrogiad o gyd-destun y cymhwyso. Dealltwriaeth gyfyngedig o gymhwyso theori i arfer neu o wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan iawn y tu allan i'r cyd-destun lle	Cymhwyso dulliau sefydledig, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd elfennol ond heb ystyriaeth na chymhwysedd. Gwerthfawrogiad diffygiol o gyd-destun y cymhwyso. Dealltwriaeth wan o gymhwyso theori i arfer, gyda thystiolaeth achlysurol yn unig o wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan	Ymwybyddiaeth ddigonol o ddulliau sefydledig, deunyddiau, offer a/neu dechnegau ac yn cymhwyso'r rheini mewn modd priodol ar y cyfan. Gwerthfawrogiad sylfaenol o gyd-destun y cymhwyso. Gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol wedi'u cymhwyso'n ymarferol, ond heb wneud cysylltiadau rhesymegol rhwng y ddau bob tro.	Cymhwyso dulliau sefydledig, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd da a phriodol. Gwerthfawrogiad eglur o gyd-destun y cymhwyso. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol ar y cyfan, gan wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol ar y	Cymhwyso ystod o ddulliau sefydledig, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd da iawn. Ystyriaeth dda iawn o gyd-destun y cymhwyso, gyda mewnwelediad treiddgar. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol, gan wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion	Cymhwyso ystod o ddulliau sefydledig, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd uwch. Mae cyd-destun y cymhwyso yn ystyriol ac yn dreiddgar. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol, gan wneud cysylltiadau datblygedig rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion creadigol, rhagorol y tu	Lefelau eithriadol o sgiliau cymhwyso a defnyddio gan ddefnyddio dulliau sefydledig, offer a/neu dechnegau. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol, gan wneud cysylltiadau datblygedig iawn rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau arferol ac anarferol a chynnig atebion creadigol, eithaf soffistigedig y tu

Lefel 5	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3ydd / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth)
Categori	**0-29%**	**30-39%**	**40-49%**	**50-59%**	**60-69%**	**70-84%**	**85-100%**
	y'u hastudiwyd yn gyntaf.	y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf.	Gall ddynodi problemau a chynnig atebion sylfaenol y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf.	cyfan y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf.	priodol y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf. Tystiolaeth o rywfaint o greadigrwydd.	allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf.	allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf.
Sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd ac arfer proffesiynol (Cyfleu'n effeithiol ar amrywiaeth o ffurfiau i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol; y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau.)	Cyfrwng cyfathrebu yn amhriodol neu wedi'i gam-gymhwyso. Mae'r gwaith wedi'i strwythuro'n wael, yn ddi-drefn, a/neu wedi'i fynegi'n ddryslyd. Defnydd gwan iawn o iaith a/neu arddull amhriodol iawn. Wedi methu gweithio'n effeithiol yn rhan o grŵp. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o'r sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau.	Cyfrwng cyfathrebu wedi'i ddylunio'n wael a/neu ddim yn addas at y gynulleidfa. Mae'r gwaith wedi'i gyflwyno'n wael mewn modd di-gyswllt. Mae wedi'i strwythuro'n llac, ac ar brydiau'n anghydlynol, a gwybodaeth a syniadau wedi'u mynegi'n wael yn aml. Defnydd gwan o iaith a/neu arddull amhriodol. Ymagwedd ddiffygiol at waith grŵp, gan fodloni rhwymedigaetha u rhannol i eraill yn unig. Tystiolaeth gyfyngedig o'r sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n	Gall gyfathrebu mewn cyfrwng sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa ond gyda lle i wella. Cyflwyniad a strwythur yn drefnus ar y cyfan, lle mynegir syniadau / cysyniadau perthnasol mewn modd rhesymol. Gall fod diffyg cydlyniad mewn mannau yn y gwaith. Gall weithio fel rhan o grŵp, gan fodloni'r rhan fwyaf o'r rhwymedigaetha u i bobl eraill ond efallai gyda chyfranogiad cyfyngedig mewn gweithgareddau grŵp.	Gall gyfathrebu'n effeithiol mewn cyfrwng sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa, ond gall fod â mân wallau. Mae'r gwaith yn gydlynol a threfnus ar y cyfan, mewn strwythur addas ac ar y cyfan mae wedi'i fynegi'n eglur. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eglur at weithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau,	Gall gyfathrebu'n dda, yn hyderus ac yn gyson mewn cyfrwng sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl, wedi'i strwythuro'n dda ac yn drefnus. Gall weithio'n dda iawn yn ymreolaethol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau da iawn at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau da iawn ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau, gyda mân wendid	Gall gyfathrebu'n broffesiynol, yn hyderus ac yn gyson mewn cyfrwng sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n fedrus. Gall weithio'n ymreolaethol gyda menter. Lle bo'n berthnasol gall weithio'n broffesiynol o fewn tîm, gan ddangos sgiliau arwain fel y bo'n briodol, gan fodloni ymrwymiadau. Arddengys sgiliau rhagorol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a	Gall gyfathrebu gyda lefel eithriadol o uchel o broffesiynoldeb, sy'n addas iawn ar gyfer y gynulleidfa. Mae'r gwaith yn eithriadol o gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n broffesiynol. Gall weithio'n eithriadol o dda o fewn tîm, gan ddangos sgiliau arwain. Arddengys sgiliau eithriadol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau gydag awydd i ddatblygu ymhellach.

Lefel 5	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3ydd / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth)
Categori	**0-29%**	**30-39%**	**40-49%**	**50-59%**	**60-69%**	**70-84%**	**85-100%**
		gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau.	Arddengys y sgiliau sylfaenol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau, gyda rhai meysydd o fân wendid.	gyda rhai meysydd o gryfder a rhai o fân wendid.	achlysurol yn unig.	gwneud penderfyniadau, gydag awydd i ddatblygu ymhellach.	

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL HEFYD YN SAESNEG